



Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol yr Eglwys yng Nghymru Penrhyn Dewi

Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2022

gan Estyn, Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Trosolwg

Mae ffocws gofalgar a chefnogol yn Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyr yr Eglwys yng Nghymru Penrhyn Dewi, a ffocws clir ar ddatblygiad personol a lles ei disgyblion a'i staff. Ategir yr ethos hwn gan werthoedd Cristnogol cryf. Mae'r ysgol yn darparu cymorth cryf iawn a thra ystyriol ar gyfer lles, anghenion corfforol, diwylliannol a moesol disgyblion, yn ogystal â'u hanghenion dysgu. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn hapus a brwdfrydig ynglŷn â dod i'r ysgol. Maent yn teimlo'n ddiogel ac yn gwybod at bwy i droi os oes ganddynt unrhyw bryderon.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod pob un o'r disgyblion yn cael eu cynnwys mewn gweithgareddau. Gall disgyblion o gefndiroedd difreintiedig gymryd rhan yn llawn ym mhob agwedd ar fywyd yr ysgol trwy gymorth sensitif ac ar wahân. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn chwarae rhan lawn yn yr ysgol, a chânt eu cynorthwyo'n dda i sicrhau eu bod yn gallu ymgymryd â rolau a chyfrifoldebau arwain.

Ceir perthnasoedd gweithio da iawn rhwng staff a disgyblion. Yn y sector cynradd, mae ansawdd yr addysgu yn gyson uchel, ond mae hyn yn fwy amrywiol yn y sector uwchradd. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn y dosbarth meithrin a'r dosbarth derbyn yn gwneud cynnydd cryf o'u manau cychwyn. Mae llawer o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn gwneud cynnydd addas tra bod mwyafrif y disgyblion yn meddu ar ddealltwriaeth ddigonol o ddysgu blaenorol perthnasol, ac yn gallu cymhwyso hyn yn dda i gyd-destunau newydd. Er bod llawer o ddisgyblion yn dangos safonau priodol o fedrau llythrennedd, rhifedd a digidol, ni chaiff y cynllunio ar gyfer dilyniant medrau disgyblion ar draws yr ysgol ei gydlynu'n ddigon da. Yn ychwanegol, wrth i ddisgyblion symud ymlaen trwy'r ysgol, prin yw'r cyfle iddynt ymarfer a datblygu eu medrau Cymraeg y tu allan i'r gwersi Cymraeg.

Mae staff yn gwneud defnydd rhagorol o'r gofodau awyr agored, yr ardal leol gyfagos a'r gymuned i ddatblygu profiadau dysgu go iawn. Mae disgyblion yn elwa'n llawn ar ystod eang y profiadau a gynigir mewn lleoliad unigryw.

Mae'r pennaeth a'r tîm arweinyddiaeth newydd yn gydwybodol yn eu hymagwedd at arwain yr ysgol. Mae'r pennaeth yn angerddol o ran ei hawydd i roi'r addysg orau i ddisgyblion. Mae'n cefnogi lles staff a disgyblion yn dda.

Mae arweinwyr wedi sefydlu prosesau addas i werthuso gwaith yr ysgol a chynllunio ar gyfer gwelliant yn briodol. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr bob amser yn nodi meysydd i'w gwella yn ddigon manwl gywir nac yn gwerthuso addysgu yn ôl ei effaith ar ddeilliannau disgyblion yn ddigon da. Nodwyd ychydig o faterion iechyd a diogelwch yn ystod yr arolygiad.

Argymhellion

- A1 Gwella cydlynu'r cynllunio ar gyfer cynnydd ym medrau disgyblion, gan gynnwys datblygu medrau siarad, darllen ac ysgrifennu disgyblion ar draws yr ysgol
- A2 Gwella ansawdd yr addysgu i gyd-fynd â'r arfer orau a welwyd yn yr ysgol
- A3 Cryfhau prosesau sicrhau ansawdd i ystyried effaith gwaith yr ysgol ar safonau disgyblion, a mireinio cynllunio gwelliant
- A4 Mynd i'r afael â'r materion iechyd a diogelwch a nodwyd yn ystod yr arolygiad

Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ar ei gwaith yn gysylltiedig â defnydd yr ysgol o'r amgylchedd awyr agored ehangach a'r gymuned (Cynefin) i ymestyn profiad dysgu disgyblion, i'w lledaenu ar wefan Estyn.



Cyd-destun yr ysgol

Enw'r darparwr	Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyr yr Eglwys yng Nghymru Penrhyn Dewi
Awdurdod lleol	Cyngor Sir Penfro
Iaith y darparwr	Saesneg
Math o ysgol	Pob oed
Cymeriad crefyddol	Yr Eglwys yng Nghymru
Nifer y disgyblion ar y gofrestr	613
Disgyblion o oed ysgol statudol	555
Nifer yn y dosbarthiadau meithrin	38
Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd mewn ysgolion pob oed yw 20.4%)	10.7%
Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol mewn ysgolion pob oed yw 22.3%)	24.9%
Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd	7%
Dyddiad penodi'r pennaeth	01/09/2022
Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw'n berthnasol)	
Dyddiad dechrau'r arolygiad	24/10/2022
Yr ysgol hon yw'r ysgol arweiniol ar gyfer addysg gychwynol athrawon. Hwn yw'r arolygiad cyntaf o'r ysgol.	

© Hawlfraint y Goron 2022: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 29/12/2022